

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 26 Tachwedd, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Alun Jenkins (yn y Gadair); Brython Davies, Eluned Evans, Jane Hopkins, Phil Lloyd, Elise Powell a'r Cyng. Rhodri Davies.

1. YMDDIHEURIADAU

Rhodri Jenkins, James Raw.

Yn dilyn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd enwebwyd Alun Jenkins yn Gadeirydd am y cyfarfod.

2. MATERION PERSONOL

Dymunwyd longyfarchiadau i Eluned Evans ar ei dyweddïad diweddar gyda Mark Hemingway.

3. COFNODION 1af Hydref, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Dwr yng Nghwmystwyth

Cyfeiriwyd fod y broblem yn bodoli unwaith eto ble roedd dwr yn llifo allan i'r ffordd ger Gate Cottage ac angen tynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion i'r sefyllfa a'r ffaith fod y dwr yn achosi tyllau yn y ffordd.

5. GOHEBIAETH

(a) Ymholwyd i'r Clerc a oedd wedi derbyn gwybodaeth wrth yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud a "Dyfed County Council - Wildlife & Countryside Act 1981 - Definitive Map Reclassification Order 1991 "Upper Llanfihangel" Rapps 20/9. Gan nad oedd wedi derbyn gwybodaeth y Clerc i ymchwilio.

(b) A15029 Alterations and extension to an existing dwelling, including outbuildings and garden structures. Tynglog, Cwmystwyth.

Trafodwyd y cais uchod a chytunwyd bod angen gwneud cais i Gyngor Sir Ceredigion i Bwyllgor Cynllunio llawn y Cyngor Sir i drafod y cais yn y cyfarfod nesaf.

6. CYLLID

(a) Derbyniwyd anfoneb wrth Alan Cole am gostau rhedeg Safle We'r Cyngor Bro am 2016. Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £244.00 i Alan Cole o Ionawr i Ragfyr 2016. Cynigiwyd y taliad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Jane Hopkins.

(b) Gwahoddiad wrth Ysgol Henry Richard i Gynghorwyr y Cyngor Bro i brynhawn Gwobrwyo'r Ysgol. Cytunwyd i ddanfon ymddiheuriadau i'r prynhawn Gwobrwyo.

- (c) Pamffledi wrth Gyngor Sir Ceredigion i'w dosbarthu o fewn y Gymuned i hyrwyddo'r safle ailgylchu gwydr ym Mhontarfynach. Derbyniwyd hefyd ohebiaeth wrth Simon Edwards, Swyddog gyda'r Cyngor Sir yn nodi y byddid yn mynd a bin ailgylchu gwydr newydd i'r safle ailgylchu ym Mhontarfynach, trefniant dros dro fyddai hyn gan edrych a oes galw am fin ychwanegol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn danfon nodyn o werthfawrogiad i Mr. Edwards am y trefniant yma.
- (ch) Adroddodd y Clerc y derbyniwyd llythyr gan Swyddogion Eglwys Newydd yr Hafod yn ymholi a fyddai'r Cyngor Bro yn fodlon danfon llythyr o gefnogaeth i gais yr Eglwys i Gyngor Sir Ceredigion am nawdd ariannol i gael system sain yn yr Eglwys. Byddai'r System Sain yn galluogi y rhai sy'n mynychu'r Eglwys glywed siaradwyr yn nhu cefn yr Eglwys yn ogystal a thu blaen. Cytunwyd i'r cais o lythyr cefnogaeth.
- (d) Pamffled gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am gynlluniau i Weddnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

7. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Blychau Ffon BT. Cytunwyd i symud ymlaen gyda phwrcasu'r blychau ffon Trisant a Chwmystwyth am £1.00 yr un ac yna trosglwyddo Blwch Ffôn Cwmystwyth i Gofnodion Cwmystwyth am £1.00. Y Clerc i wneud y trefniadau perthnasol gyda BT a'r Bwrdd Trydan a Chofnodion Cwmystwyth.
- (b) Dydd Sul y Cofio
Adroddwyd y cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio o dan ofalaeth y Parchedig Ingrid Rose a dangoswyd werthfawrogiad i Barchedig Rose am ymgymryd â'r Gwasanaeth. Cynigiwyd rhodd o £30.00 i'r Lleng Brydeinig gan Elise Powell ac eiliwyd gan Eluned Evans.
- (c) Materion angen tynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion ato:
Yr angen i gael y peiriant ysgubo (sweeper) i lanhau'r ffyrdd a'r palmant ym Mhontarfynach.

Adroddwyd am bryder a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd am y palmant tu allan i Ysgol Mynach ac ymholi a fyddai modd cael palmant isel gyferbyn â gatiâu'r ysgol. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi beth yw'r sefyllfa.

Wrth ymyl y chwarel gyferbyn â'r llyn yn Nhrisant mae nifer o goed yn ymestyn allan i'r ffordd sy'n niweidio cerbydau uchel. Yr angen i dorri'r canghennau yma ar frys.

Coeden leylandii yn ymestyn allan i'r palmant gyferbyn a'r Gofgolofn ym Mhontarfynach.

Arwyddion 'damwain' ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth angen cael eu casglu.

- (ch) Wal ym Mhontartwll, Cwmystwyth wedi cwmpo ers peth amser. Y Clerc i gysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Comisiwn Coedwigaeth.

8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 7fed Ionawr, 2016 yn Ysgol Mynach am 7.30 y.h.